Canllaw Cyflogwyr i
Brentisiaethau

Prentisiaethau
Apprenticeships

acquire training
develop.grow.succeed
provided by deeside college

Coleg Glannau Dyfrdwy
Coleg Llysfasi
Coleg Llaneurgain
Hyfforddiant Wrecsam

Cyflwyniad i Brentisiaethau

Mae gan fusnesau heddiw nifer o sialensiau; technolegau newydd; gweithluoedd sy'n heneiddio, cystadleuaeth fyd-eang a symud o economi sgiliau tuag at economi wybodaeth.

Ar gyfer unrhyw reolwr neu gyfarwyddwr mae canfod ffyrdd i helpu'ch busnes dyfu a datblygu ar gyfer y dyfodol yn allweddol; gyda mwy o gystadleuaeth, ansicrwydd economaidd a disgwyliadau uchel gan gwsmeriaid mae'r angen i barhau i ddatblygu, arloesi a chynnal eich gweithlu yn hanfodol ar gyfer llwyddiant parhaus

Gall yr atebion hyfforddiant cywir ddod a nifer o fanteision i unrhyw sefydliad. Mae prentisiaethau yn gymwysterau sefydledig fydd yn dod a gwerth i'ch busnes. Mae prentisiaethau ar gael i weithwyr newydd a phresennol; bydd staff newydd yn ennill sgiliau priodol a gellir uwchsgilio staff presennol er mwyn cwrdd â sialensiau newydd.

Mae cymryd prentis ymlaen yn fwy na dim ond rhoi cyfle i ddysgu. Gall prentisiaid llawn cymhelliant ac awyddus, sy'n gyfforddus gyda thechnoleg newydd, helpu i wneud eich sefydliad yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol, trwy adfywio eich gweithlu a mynd i'r afael yn uniongyrchol a bylchau sgiliau

Beth ydy prentisiaethau?

Mae prentisiaethau yng Nghymru yn cael eu cydnabod yn gynyddol fel y safon aur ar gyfer hyfforddiant yn y gweithle wedi eu cynllunio o amgylch anghenion cyflogwyr, sy'n arwain at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol. Gallwch ddefnyddio prentisiaethau i hyfforddi gweithwyr newydd a phresennol.

Mae cyllid ar gael i hyfforddi prentisiaid

Mae tair lefel ar gyfer y rhai dros 16 mlwydd oed:

- **Lefel 2** – Prentisiaethau Sylfaenol (cyfwerth i bum gradd dda mewn TGAU)
- **Lefel 3** – Prentisiaeth (cyfwerth i ddau Lefel A)
- **Lefel 4** – Prentisiaethau Uwch

Beth mae prentisiaeth yn ei gynnwys?

Mae'r holl brentisiaethau yn cynnwys hyfforddiant cymhwysedd a sgiliau yn y swydd ynghyd a'r wybodaeth greiddiol a sgiliau gwaith hanfodol fel cyfathrebu, gwaith tîm, llythrennedd, rhifedd a TG.

Mae prentisiaeth yn cynnwys y cydrannau canlynol:

- Lleiafswm o 30 awr yr wythnos o gyflogaeth daledig
- Elfen seiliedig ar wybodaeth
- Elfen seiliedig ar gymhwysedd
- 'Sgiliau hanfodol' trosglwyddadwy
- Modiwl ar hawliau a chyfrifoldebau cyflogaeth

Pa mor aml fydd angen i brentis fynychu'r coleg?

Mae presenoldeb yn hyblyg. Tra'n gweithio, gall prentisiaid fynychu'r coleg un diwrnod neu un noson yr wythnos, neu am sawl wythnos fel rhyddhau bloc.

Mae rhai prentisiaid yn y gweithle trwy'r amser gyda'r prentis yn cael cefnogaeth ac arweiniad yn y gweithle gan eu haseswr.

Os mai dyma'r achos, bydd angen i'r prentisiaid ddod i'r coleg ar gyfer arholiadau neu ar gyfer mynychu gweithdai penodol yn unig. Mae presenoldeb yn dibynnu ar y fframwaith a ddewiswyd ar gyfer astudio. Mae'r mwyafrif o'r asesu yn cymryd lle yn y gweithle.

Beth mae prentisiaeth yn ei olygu i gyflogwr?

Fel cyflogwr bydd prentisiaeth yn cynnwys:

- Chi'n cynnig i'r prentis lleiafswm o 30 awr o gyflogaeth daledig pob wythnos
- Caniatáu i'r prentis fynychu hyfforddiant (fel arfer 1 diwrnod yr wythnos) yn y coleg i ennill eu cymwysterau
- Cyfle i'r prentis ymgymryd â swyddi penodol a chyfrifoldebau yn ystod eu gwaith er mwyn cwrdd â rhan cymwyseddau eu cymwysterau
- Cyfarfodydd achlysurol gyda'r prentis a'r cydlynydd hyfforddiant yn y gweithle yn galw mewn i ymweld â'r gweithle yn ystod y flwyddyn er mwyn gwirio cynnydd a chael adborth cyffredinol am y prentis
- Cefnogaeth fel bo angen ar gyfer dysgu yn y swydd
- Amgylchedd gwaith iach a diogel, yn cynnwys cydweithredu gyda'r cydlynydd hyfforddiant i ymgymryd ag asesiadau



Beth yw'r manteision i'ch busnes?

Mae prentisiaethau'n helpu busnesau ar draws yr holl sectorau trwy gynnig llwybr i harneisio talent newydd ffres

Mae prentisiaethau sy'n addas ar gyfer gweithwyr presennol o bob oedran yn gallu sicrhau bod gan eich gweithlu'r sgiliau ymarferol a chymwysterau y mae eich sefydliad ei angen nawr ac yn y dyfodol

Mae dros 130,000 o gwmnïau yn cynnig llefydd i brentisiaid oherwydd eu bod yn deall y manteision y mae prentisiaid yn dod i'r busnes - Cynyddu cynhyrchaeth, cynyddu ysbryd cystadleuol a gweithlu ymrwymedig a chymwys

Gwella eich llinell isaf

Mae prentisiaethau yn cyflwyno dychweliadau go iawn i'ch llinell isaf. Mewn arolwg diweddar* dywedodd y mwyafrif o gyflogwyr bod Prentisiaethau wedi eu helpu i wella cynhyrchaeth a bod yn fwy cystadleuol. Bu iddynt hefyd ddweud bod hyfforddi prentisiaid yn fwy cost effeithiol na llogi staff medrus, gan arwain at lai o gostau hyfforddi a recriwtio.

Llenwi eich bylchau sgiliau

Mae prentisiaethau yn cyflwyno sgiliau wedi eu cynllunio o amgylch anghenion eich busnes. Maent hefyd yn eich helpu chi i ddatblygu'r sgiliau arbenigol sydd arnoch ei angen i gadw fyny gyda'r dechnoleg ddiweddaraf ac arferion gwaith yn eich sector. Dywedodd cyflogwyr eu bod yn dibynnu ar eu rhaglenni Prentisiaeth i ddarparu'r gweithwyr medrus y maent eu hangen ar gyfer y dyfodol.*

Ysgogi eich Staff

Mae prentisiaid yn tueddu i fod yn awyddus, llawn cymhelliant, hyblyg a ffyddlon i'r cwmni a fuddsoddodd ynddynt. Cofiwch, bod prentis gyda chi gan eu bod eisiau bod – maent wedi dewis dysgu wrth wneud y swydd ac ymrwymo i yrfa benodol.

*Arolwg prentisiaethau a gynhaliwyd gan Populus ar ran y Cyngor Dysgu a Sgiliau Chwefror 2009

Y Ffeithiau:

- **Mae 77% o gyflogwyr yn credu bod Prentisiaethau'n eu gwneud yn fwy cystadleuol**
- **Mae 76% yn dweud bod Prentisiaethau yn darparu cynhyrchaeth uwch**
- **Roedd 80% yn teimlo bod Prentisiaethau yn lleihau trosiant staff**
- **Mae 83% o gyflogwyr yn dibynnu ar eu rhaglen Prentisiaeth i ddarparu'r gweithwyr medrus y maent eu hangen ar gyfer y dyfodol**
- **Mae 88% yn credu bod Prentisiaethau yn fwy cost-effeithiol na llogi staff medrus**

Ffynhonnell: Populus ar ran y Cyngor Dysgu a Sgiliau Chwefror 2009

Beth mae ein cwsmeriaid yn ei ddweud....

"Mae staff hyfforddedig bob amser wedi bod ar frig fy rhestr mlaenoriaeth ac i mi hyfforddiant prentisiaeth oedd y ffordd orau i gyflawni hyn. Mae prentisiaethau'n caniatáu i fusnesau bychain recriwtio a datblygu gweithwyr, yn aml gyda chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

Nid yn unig y mae hyn yn caniatáu i chi gael dylanwad mawr ar y sgiliau y mae'r hyfforddai yn ei ddatblygu, sy'n golygu eu bod yn cael eu teilwra i anghenion eich busnes, ond hefyd bod yr hyfforddai'n aml yn fwy ffyddlon i'r busnes."

Natalie Harper, Perchennog, Hair Culture

"Rydym bob amser wedi cefnogi hyfforddiant galwedigaethol gan ei fod yn ein galluogi ni i ddatblygu ein gweithwyr gyda'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gyd-fynd a gofynion y busnes.

Rydym yn gallu datblygu ein gweithwyr i'r hyn yr ydym ei angen trwy harneisio eu syniadau, brwdfrydedd a gallu. Fodd bynnag er mwyn cynnig hyfforddiant Prentisiaeth yn llwyddiannus mae angen perthynas dda gyda'ch darparwr hyfforddiant ac mae gennym hynny gyda'n coleg lleol, Coleg Glannau Dyfrdwy."

Kelly Davies, Dirprwy Reolwraig, Meithrinfa Sêr Bach

Hair Culture

Little Stars (Deeside) Ltd

sêr bach

Pam gweithio gyda Choleg Glannau Dyfrdwy?

Acquire Training, sef cangen fusnes Coleg Glannau Dyfrdwy, yw'r pwynt cyswllt canolog ar gyfer hyfforddiant Prentisiaethau. Rydym yn ymfalchïo ein bod ni'r prif ddarparwr hyfforddiant ar gyfer busnesau ar draws Gogledd Cymru.

Rydym yn cefnogi tua 1500 o bobl pob blwyddyn sy'n cymryd mantais o'r cyfle i ennill arian tra'u bod yn dysgu sy'n profi mai ni yw'r partner perffaith i weithio gyda'n gilydd i gyflawni eich anghenion hyfforddi.

Mae ein harbenigedd a'n hymroddiad i'ch helpu chi i dyfu eich busnes yn sicrhau bod eich gweithlu yn cyflwyno'r canlyniadau yr ydych eu hangen. Gyda chysylltiadau busnes cryf, rydym yn canolbwyntio ar eich darparu chi gyda gwasanaeth o ansawdd i ddatblygu eich gweithwyr. Mae Acquire Training yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr o bob maint ac ar bob lefel yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol gan ymateb i'w anghenion.

Mae ein holl staff wedi ymrwymo'n gryf i weithio'n effeithiol ac ymatebol gyda chyflogwyr, gan ddarparu lefel uchel o wasanaeth cwsmer a chyflawni anghenion sgiliau'r dyfodol yr economi leol.

Gallwn hefyd weithio gyda chi i greu Pecyn Prentisiaeth wedi ei deilwra o fewn fframwaith cymwysterau trosglwyddadwy/achrededig fydd yn mynd i'r afael ag anghenion eich sefydliad/busnes.

Mae ein gwasanaeth prentisiaethau yn cynnwys:

1. **DYRANNU** prif gyswllt
2. **YMGYNGHORI** i drafod cyfleoedd prentisiaethau mewn mwy o fanylion
3. **HYSBYSEBU** swydd wag neu **DDEWIS** gweithwyr presennol
4. **CYFLWYNO'R** rhaglen brentisiaeth
5. **CEFNOGI'R** ymgeiswyr gydag adborth parhaus ar berfformiad eich staff
6. **CWBLHAU'R** hyfforddiant
7. **GWERTHUSO'r** hyfforddiant, mesur effaith busnes a dilyn i fyny

Prentisiaethau yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy

Rydym ar hyn o bryd yn cynnig prentisiaethau yn y meysydd canlynol:

Maes Astudiaeth	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4
Cyngor a Chyfarwyddyd		●	●
Therapi Harddwch	●	●	
Gweinyddu Busnes	●	●	
Arlwyo a Lletygarwch	●	●	
Glanhau	●		
Adeiladu	●	●	
Gwasanaeth Cwsmer	●	●	●
Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant	●	●	
Peirianneg	●	●	
Ffabrigo a Weldio	●	●	
Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod	●	●	
Trin Gwallt	●	●	
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	●	●	
Gwresogi ac Awyru	●	●	
Garddwriaeth	●	●	
Gwella Perfformiad Gweithredol (Gweithgynhyrchu/Technegau Gwella Busnes)	●		
Technoleg Gwybodaeth	●	●	
Peiriannau'r Tir	●	●	
Dysgu a Datblygiad	●	●	
Logisteg	●	●	
Trin Cerbydau (Cerbydau Ysgafn a Thrwm, Gosod cyflym)	●	●	
Adwerthu	●	●	
Gwerthiant	●	●	
Cadwyn Gyflenwi	●		
Arwain Tîm a Rheolaeth	●	●	
Warws a Dosbarthu	●		

I gael mwy o wybodaeth am y prentisiaethau yma ewch i'n gwefan:
www.deeside.ac.uk/employers neu ffoniwch ein tîm Ymglymiad Cyflogwyr ar 01244 834559.

Rydym yn adolygu ein darpariaeth yn barhaus er mwyn cwrdd ag anghenion ein cwsmeriaid felly os nad ydych yn gallu dod o hyd i'r brentisiaeth yr ydych yn chwilio amdano cysylltwch â ni.

Ai **prentis** yw'r darn sydd ar goll **o'ch busnes?**

Cymerwch fantais o'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael.

Mae **Rhaglen Recriwtiaid Ifanc** yn rhaglen trwy Gymru gyfan Llywodraeth Cymru sy'n cynnig cymhellion ariannol i gyflogwyr greu cyfleoedd ychwanegol i bobl ifanc (16-24 Oed) allu manteisio ar leoedd prentisiaeth o safon

I gael rhagor o fanylion cysylltwch â'r Tîm Prentisiaethau ar 01244 834559.
Coleg Glannau Dyfrdwy, Ffordd Celstryn, Cei Conna, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint CH5 4BR